Maddau i'w elynion

Maddeuant / cadernid

Gordon Wilson: 1929-1995

Pan fyddwch chi'n clywed am Ogledd Iwerddon am beth fyddwch chi'n meddwl? Dwi'n siŵr mai un o'r pethau fydd yn dod i'ch meddwl fydd y brwydro sydd wedi digwydd yno. Mae gweld milwyr a thanciau ar y strydoedd wedi bod yn olygfa gyffredin yno. Mae'r stori hon yn sôn am fan yn ffrwydro yn nhref Enniskillen, yng Ngogledd Iwerddon.

Roedd Gordon Wilson a'i ferch Marie yn sefyll o gwmpas y gofgolofn yng nghanol Enniskillen. Sul y Cadoediad oedd hi. Roedd tyrfa dda yn sefyll yno i gofio'r rhai oedd wedi'u lladd yn ystod y ddau ryfel byd. Yn ystod y gwasanaeth fe ffrwydrodd bom enfawr. Bu farw 11 o bobl ac anafwyd llawer mwy. O dan y rwbel gorweddai Gordon a'i ferch Marie.

"Dad," sgrechiodd Marie, "wyt ti'n iawn?" Cydiodd ei thad yn ei llaw, "Ydw, 'mach i, wyt ti'n iawn?"

"Ydw," meddai hithau mewn llais uchel, clir. Wrth iddi geisio symud o dan y rwbel, dechreuodd weiddi mewn poen. Cydiodd unwaith eto yn llaw ei thad.

"Dad," meddai "dwi'n dy garu di'n annwyl iawn." Dyna ei geiriau olaf. Daeth y dynion ambiwlans o hyd iddi hi a'i thad. Rhoddwyd nhw yn yr ambiwlans a'u rhuthro i'r ysbyty. Pan gyrhaeddwyd yr ysbyty roedd Marie wedi marw. Roedd ei thad, Gordon, yn fyw ond wedi ei anafu'n ddirfawr. Y diwrnod wedyn fe ddaeth un o ohebwyr y teledu at wely Gordon. Erbyn hyn roedd o'n teimlo'n well ac roedd yn siarad.

"Sut ydach chi'n teimlo erbyn hyn?" gofynnodd y gohebydd.

"O, mi rydw i'n teimlo'n well o lawer, ond mae gen i boen yn fy nwy goes."

"Sut ydych chi'n teimlo o golli eich merch Marie?" holodd y gohebydd.

"Yn drist iawn, iawn. Marie oedd cannwyll fy llygad. Y peth olaf ddywedodd hi wrtha i yng nghanol y rwbel yna oedd ei bod hi'n fy ngharu."

Roedd dagrau yn llenwi ei lygaid. Ond aeth y gohebydd ymlaen i'w holi.

"Beth ydi'ch teimladau chi tuag at y rhai osododd y bom?"

holodd y gohebydd unwaith eto.

Cododd Gordon yn uwch yn y gwely. Edrychodd i fyw llygaid y gohebydd ac meddai,

"Dydw i ddim yn meddwl dim drwg tuag atyn nhw, pwy bynnag oedden nhw. Rydw i 'n maddau iddyn nhw. Dydw i ddim yn deall o gwbl beth yw pwrpas Duw. Pam mae o wedi cymryd Marie oddi wrtha i. Ond mi rydw i'n ei dderbyn fel rhan o gynllun mawr Duw. Wn i ddim beth fydd hwnnw. Ond..." cododd yn uwch unwaith eto yn y gwely.

"Ond mi rydw i'n credu y caf i weld Marie eto ryw ddydd. Rydw i'n credu mewn bywyd ar ôl marw."

Roedd y gohebydd wedi ei syfrdanu o glywed geiriau Gordon Wilson. Pan ddarlledwyd yr eitem ar y newyddion y noson honno, roedd llawer iawn o bobl wedi rhyfeddu clywed yr hyn oedd ganddo i'w ddweud. Dyma'r dyn oedd wedi maddau i'r rhai oedd wedi lladd ei ferch. Doedd o ddim yn teimlo'n ddig nac yn gas tuag at ei elynion.

Daeth Gordon Wilson yn "Llais Enniskillen". Hwn oedd y llais oedd yn awyddus i bobl garu ei gilydd. Am ddeng mlynedd cyn ei farw, bu Gordon Wilson yn ceisio dweud wrth ei bobl ei hun a phobl y byd i gyd mai'r ffordd orau oedd ffordd Iesu Grist – ffordd cariad.

"Y mae'n ein diddanu ym mhob gorthrymder, er mwyn i ninnau, trwy'r diddanwch a gawn ganddo ef, allu diddanu'r rhai sydd dan bob math o orthrymder."

2 Corinthiaid 1:4

O Dduw,
rwyt ti'n gwybod yn iawn
beth ydi cael dy frifo oddi mewn.
Rwyt ti'n deall yn iawn.
Helpa ni i dderbyn dy gysur
fel y gallwn ni gysuro pobl eraill.
Amen.

Sut y byddech chi'n disgrifio agwedd Gordon Wilson tuag at y rhai a osododd y bom? Lluniwch frawddegau i'w ddisgrifio.

Gordon Wilson: 1929-1995